

Polisi Iaith Gymraeg

1. Cyflwyniad

Cyhoeddir y Polisi Iaith hwn yn unol â'r gofynion a osodir ar Amgueddfa Cymru dan Safonau'r Gymraeg, Adran 4A Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Safonau hyn yn gosod disgwyliadau pendant ar yr Amgueddfa i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru oedd un o'r cyrff cyhoeddus cyntaf i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan annatod o drefnadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan yr Amgueddfa ran allweddol i'w chwarae yn meithrin ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru.

Arferai'r Amgueddfa adrodd yn flynyddol ar weithrediad ei Gynllun Iaith. O hyn allan, bydd yr Amgueddfa yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ein cydymffurfriad gyda'r Safonau Iaith.

2. Amcanion

Diben y Polisi yw nodi sut y bydd Amgueddfa Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn ceisio sicrhau trwy'r polisi bod Amgueddfa Cymru yn:

- Gweithredu'n unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan roi'r un statws a dilysrwydd i'r ddwy iaith.
- Hyrwyddo'r ffaith ein bod yn cynnig gwasanaethau i staff ac ymwelwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu a gweithredu pob strategaeth a pholisi corfforaethol.
- Ystyried ein prosesau gweithredu a chadw cofnodion yn rhinwedd y berthynas â'r iaith Gymraeg.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae gan yr Amgueddfa ddulliau o gydweithio trwy bartneriaeth yn eu lle eisoes er mwyn hybu cyfleoedd i staff a defnyddwyr ddysgu'r iaith Gymraeg.

3. Y Safonau Iaith yng ngwaith yr Amgueddfa

Mae'r Safonau Iaith wedi'u rhannu'n 5 dosbarth:

1. Cyflenwi Gwasanaethau
2. Llunio Polisi
3. Gweithredu
4. Cadw Cofnodion
5. Hybu

3.1. Cyflenwi Gwasanaethau

Gohebiaeth ysgrifenedig

- Mae croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd ohebu â'r Amgueddfa yn Gymraeg. Os oes angen ateb, gwneir hynny yn Gymraeg oni nodir yn wahanol gan awdur yr ohebiaeth.
 - Bydd llythyrau yn cael eu hateb yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol, sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 14 diwrnod gwaith.
- Rydym yn darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyr pan fyddan nhw'n gohebu ag unrhyw unigolyn am y tro cyntaf. Byddwn yn holi os dymuna'r unigolyn dderbyn gohebiaeth gennym yn Gymraeg. Os dyna yw'r dymuniad, cedwir cofnod o'r dymuniad a chyfathrebir â'r unigolyn hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg o hynny allan.

Os yw'r ohebiaeth yn cynnwys unrhyw ffurflenni, anfonir ffurflenni dwyieithog yr Amgueddfa at yr unigolyn.

- Yn yr achos prin y byddwn yn gohebu â mwy nag un person ar yr un aelwyd (er enghraifft aelod o'n fforwm ieuencid a'i rieni/gwarcheidwad) am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn i'r unigolion a yw'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Os yw'r naill neu'r ddau unigolyn yn datgan eu bod am dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn cadw cofnod o'u dymuniad, ac yn gohebu yn Gymraeg gyda'r naill neu'r ddau ohonynt o hynny ymlaen.
- Pan fydd Amgueddfa Cymru yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl, byddwn yn gohebu yn ddwyieithog.
- Os nad ydym yn gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth gennym yn Gymraeg ai peidio, byddwn yn cynnwys fersiwn Gymraeg wrth ohebu â'r person hwnnw.
- Wrth gynhyrchu fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Byddwn yn nodi yn ein gohebiaeth, ein cyhoeddiadau a'n hysbysiadau swyddogol ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

Cysylltu dros y ffôn â phrif rif ffôn yr Amgueddfa a'r system ateb electronig

- Mae pob cam o system awtomatig prif linell ffôn yr Amgueddfa ar gael yn Gymraeg gyda'r Gymraeg yn gyntaf, ac opsiwn i ddewis iaith ar ddechrau'r alwad. Bydd staff sy'n ateb prif linell ffôn Amgueddfa Cymru yn ateb galwadau ffôn yn Gymraeg yn gyntaf gan hysbysu'r galwr bod modd cael gwasanaeth Cymraeg.
- Os yw galwr yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg, byddwn yn delio â'r alwad yn Gymraeg hyd nes y bydd yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sydd ddim yn siarad Cymraeg, h.y. aelod o staff sy'n cynnig gwasanaeth ar bwnc arbenigol neu benodol. Byddwn yn egluro wrth y galwr nad yw pob aelod o staff yn medru'r Gymraeg. Mewn achosion lle bo'r aelod staff yn ddysgwr, byddwn yn ei annog i ddefnyddio ac ymarfer ei Gymraeg hyd eithaf ei allu.
- Yr un yw'r rhif ar gyfer prif linell ffôn yr Amgueddfa yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth hysbysebu'r brif linell ffôn ar ein deunydd marchnata a'n gwefan, rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn nodi fod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â ni dros y ffôn.

Galwadau ffôn at adrannau ac aelodau unigol o staff yr Amgueddfa

- Pan fydd galwr yn ffonio adran neu staff yn uniongyrchol byddwn yn ei gyfarch yn Gymraeg yn gyntaf. Os yw'r galwr yn dymuno derbyn gwasanaeth Gymraeg, byddwn yn delio â'r alwad yn Gymraeg hyd nes y bydd yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sydd ddim yn siarad Gymraeg, h.y. aelod o staff sy'n cynnig gwasanaeth ar bwnc arbenigol neu benodol. Byddwn yn egluro wrth y galwr nad yw pob aelod o staff yn medru'r Gymraeg. Mewn achosion lle bo'r aelod staff yn ddysgwyr, byddwn yn ei annog i ddefnyddio ac ymarfer ei Gymraeg hyd eithaf ei allu.
- Bydd unrhyw negeseuon peiriant ateb yn datgan bod croeso i'r galwr adael neges yn Gymraeg.

Galwadau ffôn a wneir gan Amgueddfa Cymru

- Pan fyddwn yn ffonio unrhyw unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn holi os yw'r unigolyn yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os dyna ddymuniad yr unigolyn, cedwir cofnod o'i ddymuniad a chyfathrebir â'r unigolyn hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg o hynny allan.

Cyfarfodydd a drefnir gan yr Amgueddfa

- Pan fyddwn yn gwahodd un neu fwy o unigolion i gyfarfod, byddwn yn gofyn a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os oes galw byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod. Os oes o leiaf 10% o fynychwyr y cyfarfod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd byddwn yn hysbysebu yn yr ohebiaeth ddwyieithog bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Byddwn yn gofyn i unrhyw siaradwyr cyhoeddus yn y cyfarfodydd a ydynt yn dymuno siarad yn Gymraeg ac os dyna eu dymuniad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei arddangos mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac a drefnwyd gan yr Amgueddfa ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan yr Amgueddfa

- Pan fyddwn yn hyrwyddo ac yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft mewn perthynas ag arwyddion yn y digwyddiad neu gyhoeddiadau sain sy'n rhan ohono).
- Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Cyhoeddi dogfennau a defnyddio ffurflenni

- Mae unrhyw ddogfennau a/neu ffurflenni a lunnir gan yr Amgueddfa at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Pan fyddwn yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân o ddogfen a/neu ffurflen, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen/ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.
- Bydd fersiwn Gymraeg o ffurflen yn cael ei thrin yn yr un modd a fersiwn Saesneg o ffurflen o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen honno (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, yr amser a ganiateir i ymateb i gynnwys y ffurflen neu unrhyw fanylion a nodir ar y ffurflen ymlaen llaw).

Y wefan a chyfryngau cymdeithasol

- Mae gwefan yr Amgueddfa ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Ceir dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg gyfatebol ar dudalennau Saesneg y wefan.
- Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yr Amgueddfa i'w cael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Os fydd unigolyn yn gohebu â'r Amgueddfa yn Gymraeg trwy'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg (lle bo gofyn amymateb).

Peiriannau hunanwasanaeth

- Wrth osod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth byddwn yn sicrhau bod modd eu defnyddio'n gyfangwbl yn Gymraeg.

Arwyddion a hysbysiadau

- Mae arwyddion a hysbysiadau'r Amgueddfa (gan gynnwys rhai dros dro) yn ddwyieithog.
- Yn unol â pholisi dylunio'r Amgueddfa ar gyfer arwyddion a hysbysiadau, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu i'r chwith i'r Saesneg.
- Mae staff yr Amgueddfa'n sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Derbynfa

- Mae'r Amgueddfa'n ceisio sicrhau nad yw unigolyn sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol nag unigolyn sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.

- Mae pob derbynfa'n arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae staff sy'n gweithio wrth ddesgiau gwybodaeth/derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo rheffyn sy'n cyfleu hynny.

Grantiau

- Nid yw'n arferol i'r Amgueddfa ddyfarnu grantiau. Os gwneir hynny, bydd unrhyw ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi ar gael yn Gymraeg, bydd y broses a'r dull ymgeisio'r un peth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a bydd unrhyw geisiadau am grant a ddaw i law yn Gymraeg yn cael eu trin yn yr un modd a cheisiadau Saesneg. Pe byddem yn cael cais am grant yn Gymraeg, byddem yn cyfathrebu â'r ymgeisydd yn Gymraeg. Pe byddai angen cyfweld â'r ymgeisydd, byddem yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg lle bo galw.

Tendro

- Mewn achosion lle mae pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn cynnwys yr angen i'r gwaith gael ei gynhyrchu yn Gymraeg neu pan mae cynulleidfa yn disgwyl cael y gwaith yn Gymraeg, byddwn yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg a Saesneg.
- Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg. Ni fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (er enghraifft mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer tendrau ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am benderfyniadau). Os bydd tendr Cymraeg yn dod i law a bod angen cyfweld â'r sawl sy'n tendro byddwn yn cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg, byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n tendro am ein penderfyniad yn Gymraeg.

Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg

- Rydym yn hybu'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gennym ac yn ei hysbysebu'n Gymraeg trwy ein deunydd marchnata ac ar ein gwefan.
- Os byddwn yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn Saesneg, bydd unrhyw gyhoeddusrwydd a gynhyrchir ac a gyhoeddir gennym sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg yn nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

Hunaniaeth gorfforaethol

- Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o hunaniaeth gorfforaethol Amgueddfa Cymru a byddwn bob tro yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio, diwygio neu gyflwyno ein hunaniaeth gorfforaethol.

Cyrsiau

- Rydym yn cynnig cyrsiau addysg sy'n agored i'r cyhoedd yn Gymraeg.

System sain

- Mae gan Amgueddfa Cymru system sain yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Pan fyddwn yn cyhoeddi neges drwy'r system, byddwn yn gwneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg.

3.2. Llunio Polisi

Llunio polisi

- Wrth lunio polisi newydd, neu wrth adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, bydd yr Amgueddfa'n ystyried effeithiau'r penderfyniad sydd ynghlwm â'r polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud penderfyniad polisi sy'n cael effaith bositif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, Byddwn yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, byddwn yn ystyried ac yn ceisio barn ynghylch y canlynol:
 - effaith y polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
 - sut y gellid llunio neu addasu'r polisi er mwyn cael effaith bositif ar gyfleoedd ddefnyddio'r Gymraeg
 - sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan sylw er mwyn sicrhau na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Nid yw'n arferol i'r Amgueddfa ddyfarnu grantiau, ond byddwn yn sicrhau bod unrhyw bolisi dyfarnu grantiau yn ystyried y materion a ganlyn:
 - effaith y polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
 - sut y gellid gwneud penderfyniad neu roi penderfyniad ar waith fydd yn cael effaith bositif, neu effaith mwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

- sut y gellid gwneud penderfyniad neu roi penderfyniad ar waith na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- a oes angen i ni ofyn i'r ymgeisydd am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn ein cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil fydd yn sail i benderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried:
 - yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
 - sut y gellid gwneud penderfyniad neu roi penderfyniad ar waith fydd yn cael effaith positif, neu effaith mwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
 - sut y gellid gwneud penderfyniad neu roi penderfyniad ar waith fel na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.3. Gweithredu

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

- Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut mae'r Amgueddfa'n defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.
- Cedwir holl ddogfennau perthnasol parthed hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar Fewnrwyd yr Amgueddfa.
- Mae'r Amgueddfa'n darparu contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau dwyieithog i'r staff.
- Mae unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth aelod o staff yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog.
- Mae unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa ar gael yn Gymraeg.
- Mae'r Amgueddfa'n gofyn i aelodau staff cyflogedig a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os dyna'u dymuniad, rydym yn darparu unrhyw ffurflenni o'r fath yn Gymraeg.
- Os byddwn yn cyhoeddi'r polisiâu canlynol am y gweithle, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg:

- ymddygiad yn y gweithle
- iechyd a lles yn y gweithle
- cyflogau neu fuddion yn y gweithle
- rheoli perfformiad
- absenoldeb o'r gwaith
- amodau gwaith
- patrymau gwaith.

Cwynion a disgyblu

- Mae proses gwynion a disgyblu'r Amgueddfa'n caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn neu ymateb i unrhyw gŵyn neu honiad a wnaed amdano yn Gymraeg.
- Os bydd angen cyfarfod gydag aelod o staff i drafod cwyn gan aelod o staff neu gŵyn ynghylch aelod o staff, neu achos disgyblu mewn perthynas ag ymddygiad aelod o staff, byddwn yn gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os dyna'i ddymuniad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod, oni bai ein bod yn medru cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.
- Byddwn yn rhoi gwybod i aelod o staff yn Gymraeg beth yw'r penderfyniad mewn perthynas â chwyn gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano, neu yn dilyn proses ddisgyblu os yw'r aelod hwnnw o staff wedi cyflwyno'r gŵyn yn Gymraeg, a/neu wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn neu honiad amdano, a/neu wedi gofyn bod cyfarfod ynghylch y gŵyn neu honiad yn cael ei gynnal yn Gymraeg, a/neu wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynghylch y gŵyn neu honiad.

Defnyddio TGCh a'r Fewnrwyd

- Mae'r Amgueddfa'n darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'r staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).
- Mae Mewnrwyd yr Amgueddfa ar gael yn Gymraeg a Saesneg a cheir dolen uniongyrchol ar bob dalen i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.
- Ceir tudalennau ar y Fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

Datblygu sgiliau Cymraeg

- Mae'r Amgueddfa'n asesu sgiliau Cymraeg ein staff.
- Yn rhan o'n rhaglen hyfforddi staff rydym yn darparu llu o gyfleoedd hyfforddi yn Gymraeg. Rydym yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i staff gael gwersi Cymraeg (sylfaenol – uwch) yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.
- Mae cyfle i staff sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.
- Rydym yn cynnig cyfleoedd i staff ddatblygu:
 - ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan gynnwys ymwybyddiaeth o hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru
 - dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg
 - dealltwriaeth am y ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Mae ein hyfforddiant ymsefydlu i staff newydd yn cynnwys gwybodaeth am y Safonau Iaith.
- Rydym yn darparu geiriad ar gyfer llofnodion e-bost staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.
- Rydym yn darparu geiriad ar gyfer staff sy'n eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, a negeseuon sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.

Recriwtio

- Pan fyddwn yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, byddwn yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ac yn ei gosod mewn categori, sef naill ai Cymraeg yn hanfodol / angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg wrth benodi rhywun i'r swydd / sgiliau Cymraeg yn ddymunol / nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.
- Os byddwn wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu byddwn yn nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd.
- Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- Mae ffurflenni cais am swyddi, deunydd esboniadol, gwybodaeth am ein proses gyfweld a disgrifiadau swydd ar gael yn Gymraeg.
- Mae ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad. Os yw unigolyn yn dymuno cael cyfweiliad Cymraeg byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad os nad

ydym yn medru cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.

- Pan fyddwn yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw ein penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os gafodd y cais ei gyflwyno yn Gymraeg.

Arwyddion mewnol a chyhoeddiadau sain

- Pan fyddwn yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn ein gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), bydd unrhyw destun ar yr arwydd yn Gymraeg a Saesneg.
- Yn unol â pholisi dylunio'r Amgueddfa ar gyfer arwyddion a hysbysiadau, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu i'r chwith i'r Saesneg.
- Mae staff yr Amgueddfa'n sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau'n gywir o ran ystyr a mynegiant.
- Mae gan yr Amgueddfa system sain yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Pan fyddwn yn cyhoeddi neges srwy'r system, byddwn yn gwneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg.

3.4. Cadw cofnodion

- Mae'r Amgueddfa'n cadw cofnod o nifer y cwynion a ddaw i law sy'n ymwneud â'n cydymffurfedd â'r Safonau Iaith ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Bydd y broses hon yn dod yn rhan o'n proses arferol o gadw cofnodion am gwynion. Byddwn yn cadw cofnod o'r camau yr ydym wedi eu cymryd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith.
- Rydym yn cofnodi pob cwyn a ddaw i law ac yn cadw copi ar glawr.
- Rydym yn cadw cofnod o'r canlynol, ac yn ei adolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol:
 - nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg a lefel sgiliau'r staff hynny
 - nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg
 - % y staff a fynychodd fersiwn Gymraeg o gwrs ar sail cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs
 - pob asesiad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag
 - nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol / angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth

benodi rhywun i'r swydd / sgiliau Cymraeg yn ddymunol / nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

- nifer y cwynion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â'n cydymffurfedd â'r Safonau Iaith.
- Mae copi o'r Polisi hwn, sy'n cofnodi'r Safonau Iaith yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw, y graddau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny a'r trefniadau a wnaethpwyd gennym i gydymffurfio ar gael ar ein gwefan, ac yn ein derbynfydd.
- Mae gennym weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn:
 - sut yr ydym yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'n cydymffurfedd â'r Safonau Iaith yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw
 - sut y byddwn yn darparu hyfforddiant i'n staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny.

Mae hefyd yn sicrhau bod gennym:

- drefniadau digonol ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydym yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith
- y gallu i hybu'r gwasanaethau a gynigir gennym yn unol â'r safonau hynny.
- Mae'r drefn gwyno hon yn rhan o'n trefn gwyno gyfredol. Gall ymwelwyr gwyno trwy'r ddolen *cysylltwch â ni* ar ein gwefan, yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae copi o drefn gwyno'r Amgueddfa ym mhob derbynfa.
- Byddwn yn llunio Adroddiad Blynyddol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n trafod y modd yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn honno.
- Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar ein gwefan ym mis Mawrth 2018, a bydd copi caled ar gael ym mhob derbynfa.
- Byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'n cydymffurfedd â'r Safonau Iaith.

4. Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am y polisi wedi ei osod ar lefel Gyfarwyddiaeth yr Amgueddfa. Mae unrhyw drafodaethau parthed effaith polisiâu neu strategaethau corfforaethol ar yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses benderfyniadau'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae cyfrifoldeb am safonau unigol wedi'u clustnodi i Benaethiaid Adran a Phenathiaid Safle'r Amgueddfa, yn unol â'u meysydd arbenigedd a'u cyfrifoldebau gwaith cyfredol.

Safon	Cyfrifoldeb
Gohebiaeth ysgrifenedig (Safon 1-7)	Pennaeth Adran/Safle Cyfathrebu Corfforaethol
Cysylltu dros y ffon â phrif rif ffôn yr Amgueddfa a'r system ateb electronig (Safon 8-9, 11-17)	Switsfwrdd
Galwadau ffôn at adrannau ac at aelodau unigol o staff yr Amgueddfa (Safon 8-9, 11-17; 19-20)	Pennaeth Adran/Safle
Galwadau ffôn a wneir gan Amgueddfa Cymru (Safon 21)	Pennaeth Adran/Safle
Cyfarfodydd a gynhelir gan yr Amgueddfa (Safon 24, 24A, 25, 25A, 25D, 26-30)	Pennaeth Adran/Safle
Digwyddiadau cyhoeddus sy'n cael eu trefnu gan yr Amgueddfa (Safon 31-34)	Rheolwr Digwyddiadau
Cyhoeddi dogfennau a defnyddio ffurflenni (Safon 36, 44, 45, 46, 46A, 46B, 47)	Pennaeth Adran/Safle Cyfathrebu Corfforaethol
Y wefan a chyfryngau cymdeithasol (Safon 48, 51, 52, 54, 55)	Pennaeth Adran/Safle Cyfathrebu Corfforaethol
Peiriannau hunanwasanaeth (Safon 56)	Pennaeth Safle
Arwyddion a hysbysiadau (Safon 57-59; 65-66) Derbynfa (Safon 60, 63, 64)	Pennaeth Safle
Grantiau (Safon 67, 68, 68A, 70, 71)	Pennaeth Cyllid
Tendro (Safon 72, 73, 73A, 75, 76)	Pennaeth Cyllid
Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg (Safon 77, 78)	Pennaeth Marchnata
Hunaniaeth gorfforaethol (Safon 79)	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu
Cyrsiau (Safon 80)	Pennaeth Addysg/ Rheolwr Digwyddiadau
System sain (Safon 83)	Pennaeth Safle
Llunio polisi (Safon 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 91, 92, 93)	Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Adran/Safle
Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (Safon 94-99, 100 - 107)	Pennaeth Adnoddau Dynol
Cwynion a disgyblu (Safon 108, 108A, 110, 111, 112, 112A, 114, 115)	Pennaeth Safle Pennaeth Adnoddau Dynol
Defnyddio TGCh a'r Fewnrwyd (Safon 116, 117, 120, 121, 122,	Pennaeth Technoleg

123)	Gwybodaeth / Pennaeth y Cyfryngau Digidol
Datblygu sgiliau Cymraeg (Safon 126, 127, 128, 129, 130, 131)	Pennaeth Adnoddau Dynol
Recriwtio (Safon 132, 132 A, 133, 133A, 133B, 135, 136)	Pennaeth Adnoddau Dynol
Arwyddion mewnol a chyhoeddiadau sain (Safon 137, 138, 140)	Pennaeth Safle
Cadw cofnodion (Safon 141-168)	Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu